Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **16 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020**

**<u>Yr is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio</u>**

a. Rheoliadau Egin a Hadau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

   i. Mewnosod Erthygl 3A yn lle Erthygl 2 o Reoliad (UE) Rhif 211/2013 a ddiddymwyd ar ofynion ardystio ar gyfer mewnforio egin a hadau i'r Undeb a fwriedir ar gyfer cynhyrchu egin gydag Erthygl 3 o Reoliad (UE) Rhif 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion oll yn cael eu cymhwyso i ddarparu diffiniad ar gyfer y term 'llwyth' (*consignment*).

   ii. Mân ddiwygiadau i reoliad 4 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Erthygl 4 o Reoliad (UE) Rhif 208/2013 ar ofynion olrhain ar gyfer egin a hadau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu egin.

   iii. Hepgor rheoliadau 8 i 13 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) Rhif 211/2013 a ddiddymwyd.

b. Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

   i. Mân ddiwygiadau i reoliadau 3 a 7 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (EEC) Rhif 315/93 sy'n gosod gweithdrefnau Cymunedol ar gyfer halogion mewn bwyd.

ii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 14,15 ac 17 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Atodiad 1 a 2 o Reoliad (CE) Rhif 401/2006 sy'n gosod dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol ar lefelau mycotocsinau mewn bwydydd.

iii. Mân ddiwygiadau i reoliad 20 a hepgor rheoliadau 21 a 22 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1881/2006 sy'n gosod y lefelau uchaf ar gyfer rhai halogion mewn bwydydd.

iv. Mân ddiwygiadau i reoliadau 27 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1882/2006 sy'n gosod dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol ar lefelau nitradau mewn rhai bwydydd.

v. Mân ddiwygiadau i reoliad 30 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 333/2007 sy'n gosod dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli lefelau elfennau hybrin (*trace elements*) a phrosesu halogion mewn bwydydd.

vi. Mân ddiwygiadau i reoliad 35 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) 2015/705 sy’n gosod dulliau samplu a meini prawf perfformiad ar gyfer y dulliau dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol ar lefelau asid erwsig mewn bwydydd.

vii. Mân ddiwygiadau i reoliad 39 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) 2017/644 sy’n gosod dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli lefelau deuocsinau, Biffenylau Polyclorinedig (PCBs) tebyg i ddeuocsinau a PCBs nad ydynt yn debyg i ddeuocsinau mewn rhai bwydydd.

c. Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Mewnosod yn Rheoliad 2 ddiffiniadau ychwanegol o reoliadau cymwys yr UE.

ii. Diwygio rheoliadau 5, 8, 12, 13, 17, 18 ac 19 a hepgor rheoliad 10 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.

iii. Mewnosod rheoliadau 19A ac 19B sy'n diwygio Rheoliad (CE) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer rhai cynhyrchion o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (CE) Rhif 854/2004, yn rhanddirymiad o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 a diwygio Rheoliadau (CE) Rhif 853/2004 a (CE) Rhif 854/2004.

iv. Hepgor rheoliadau 20 i 49 sy’n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 854/2004 sy’n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gyfer cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid y bwriedir i bobl eu bwyta.

v. Mewnosod rheoliadau 51A-51N sy’n diwygio Rheoliad (UE) 2015/1375 sy’n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer Trichinella mewn cig.

vi. Mewnosod rheoliadau 53A-53G sy’n diwygio Rheoliad (UE) 2016/759 sy’n llunio rhestrau o drydydd gwledydd, rhannau o drydydd gwledydd a thiriogaethau lle mae Aelod-wladwriaethau i awdurdodi cyflwyno rhai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y bwriedir i bobl eu bwyta, yn gosod gofynion penodol, yn diwygio Rheoliad (CE) Rhif 2074/2005 a diddymu Penderfyniad 2003/812/EC.

vii. Mewnosod rheoliadau 53H-53L sy'n diwygio Rheoliad (UE) 2017/185 sy'n gosod mesurau trosiannol ar gyfer cymhwyso rhai o ddarpariaethau Rheoliadau (CE) Rhif 853/2004 a (CE) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

d. Rheoliadau Cyfraith Bwyd Cyffredinol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Diwygio rheoliadau 7, 9 ,11, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20 a 21 sy’n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 178/2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, gan sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a gosod gweithdrefnau ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd

ii. Mewnosod rheoliad 20A a 20B i gadw Erthygl 53, a mewnosod Erthygl 53a newydd yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 sy'n cynnwys mesurau brys ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid sy’n tarddu o’r Gymuned neu a fewnforiwyd o drydedd wlad.

iii. Mân ddiwygiad i reoliad 21(a) i hepgor Erthygl 57a o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 sy'n cynnwys mesurau brys ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid sy’n tarddu o’r Gymuned neu a fewnforiwyd o drydedd wlad.

iv. Mân ddiwygiadau i'r Atodlen sy'n cynnwys diwygiadau presennol i ddarpariaethau penodedig yr UE.

e. Rheoliadau Hylendid Bwyd Cyffredinol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Mân ddiwygiadau i reoliadau 3, 4, 5, 7, 13 ac 18 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd.

ii. Hepgor rheoliad 22(a) sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd.

iii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 28 a 29 sy’n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2017/2158 sy’n sefydlu'r mesurau lliniaru a'r lefelau meincnodi ar gyfer lleihau presenoldeb acrylamid mewn bwyd.

f. Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Mewnosod yn Rheoliad 2 ddiffiniad ychwanegol o reoliadau cymwys yr UE.

ii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 10, 11, 24 a 27 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid.

iii. Mewnosod rheoliad 30A sy'n hepgor Erthygl 21a o Reoliad (CE) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid.

iv. Mân ddiwygiadau i reoliadau 36, 50, 51, 55, 56 a 62 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 183/2005 sy'n gosod y gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid.

v. Mewnosod rheoliad 50A sy'n mewnosod paragraff ar ddiwedd Erthygl 24 o Reoliad (CE) Rhif 183/2005 sy'n gosod y gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid.

vi. Mân ddiwygiadau i reoliad 66 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 378/2005 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003.

vii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 83 ac 84 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 429/2008 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003.

viii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 94, 95, 97, 110 a 116 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 767/2009 ar ddefnyddio bwyd anifeiliaid a'i osod ar y farchnad.

ix. Mân ddiwygiadau i reoliad 137 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2015/786 sy'n diffinio meini prawf derbynioldeb ar gyfer prosesau dadwenwyno a gymhwysir i gynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid fel y darperir ar eu cyfer yng Nghyfarwyddeb 2002/32/EC ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid i ddarparu diffiniad ar gyfer awdurdodau.

x. Mewnosod rheoliadau 146 i 148 i ddiwygio Rheoliad (CE) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o ddefnyddiau bwriadedig bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC.

g. Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019

i. Diwygio rheoliad 2 i adlewyrchu diffiniadau o ddeddfwriaeth berthnasol yr UE.

ii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 4 a 5 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o China) (Lloegr) 2011.

iii. Hepgor rheoliadau 7 i 17 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 669/2009 a ddiddymwyd sy'n gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 a ddiddymwyd o ran y cynnydd yn lefel y rheolaethau swyddogol ar fewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid.

iv. Mân ddiwygiadau i reoliadau 19, 20 a 26 sy'n cynnnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) Rhif 284/2011 sy'n gosod amodau penodol a gweithdrefnau manwl ar gyfer mewnforio offer cegin plastig polyamid a melamin sy'n deillio, neu'n cael eu hanfon, o Weriniaeth Pobl Tsieina a Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong, Tsieina.

v. Hepgor rheoliadau 27 i 49 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) Rhif 884/2014 a ddiddymwyd sy'n gosod amodau arbennig i reoli mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd penodol o drydydd gwledydd penodol oherwydd risg halogiad gan afflatocsinau.

vi. Mân ddiwygiadau i reoliadau 51 a 55 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2015/949 sy'n cymeradwyo'r gwiriadau cyn allforio a gynhelir ar fwyd penodol gan drydydd gwledydd penodol o ran presenoldeb mycotocsinau penodol.

vii. Hepgor rheoliadau 56 i 73 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2017/186 sy'n gosod amodau arbennig sy'n berthnasol i gyflwyno llwythi o drydydd gwledydd penodol i'r Undeb oherwydd halogiad microbiolegol.

viii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 80 ac 81 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Benderfyniad 2011/884/EU ar fesurau argyfwng ynghylch reis a addaswyd yn enetig heb ei awdurdodi mewn cynhyrchion reis sy'n dod o Tsieina.

ix. Hepgor rheoliadau 82 i 84 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Benderfyniad 2014/88/UE a ddiddymwyd sy'n atal mewnforion o fwydydd sy'n cynnwys dail betel o Fangladesh dros dro.

h. Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau Uchaf o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Mân ddiwygiadau i reoliadau 5, 6 ac 8 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (Euratom) 2016/52 sy'n pennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear neu unrhyw achos arall o argyfwng radiolegol.

i. Rheoliadau Bwyd Newydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Mân ddiwygiadau i reoliadau 6, 7, 8, 11, 12, 20, 32, 34 a 38 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2015/2283 ar fwyd newydd.

ii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 44, 50 a 51 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2017/2468 sy'n gosod gofynion gweinyddol a gwyddonol sy'n

ymwneud â bwyd traddodiadol o drydydd gwledydd yn unol â Rheoliad (UE) 2015/2283.

iii. Mân ddiwygiadau i reoliad 60 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2017/2469 sy'n nodi gofynion gweinyddol a gwyddonol ar gyfer ceisiadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 10 o Reoliad (UE) 2015/2283.

iv. Mân ddiwygiadau i reoliad 62 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2017/2470 sy'n sefydlu rhestr yr Undeb o fwydydd newydd yn unol â Rheoliad (UE) 2015/2283.

v. Mân ddiwygiadau i reoliad 76 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (UE) 2018/456 ar gamau gweithdrefnol y broses ymgynghori ar gyfer pennu statws bwyd newydd yn unol â Rheoliad (UE) 2015/2283.

j. Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Mân ddiwygiadau i reoliadau 13, 24, 33 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1935/2004 ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

ii. Mân ddiwygiadau i reoliad 44 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 282/2008 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig wedi'u hailgylchu y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

iii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 67 a 68 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

k. Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019

i. Mân ddiwygiadau i reoliadau 6, 8, 16, 20, 35, 36 a 37 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig.

ii. Mewnosod rheoliad 36A i ddiwygio Erthygl 34 o Reoliad (CE) Rhif 1829/2003.

iii. Mewnosod rheoliad 38A i ddiwygio Erthygl 44 o Reoliad (CE) Rhif 1829/2003.

iv. Mân ddiwygiadau i reoliadau 49 a 54 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad Rhif 503/2013 ar geisiadau i awdurdodi bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003.

v. Mân ddiwygiadau i reoliadau 63, 66, 69, 112, 187, 226, 261, 272, 313, 346 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Benderfyniad 2007/305/EC, Penderfyniad 2007/306/EC, Penderfyniad 2007/307/EC, Penderfyniad 2009/184/EC, Penderfyniad 2013/327/EU, Penderfyniad (UE) 2015/686, Penderfyniad (UE) 2015/696, Penderfyniad (UE) 2015/698, Penderfyniad (UE)

2016/1217, Penderfyniad (UE) 2017/2448 ar awdurdodi a thynnu amryw gynhyrchion a addaswyd yn enetig yn ôl.

vi. Mewnosod rheoliadau 390-476 yn diwygio' Penderfyniadau Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2045, (UE) 2018/2046, (UE) 2019/1302, (UE) 2019/1303, (UE) 2019/1304, (UE) 2019/1305, (UE) 2019/1306, (UE) 2019/1307, (UE) 2019/1308, (UE) 2019/1309, (UE) 2019/2080 (UE) 2019/2081, (UE) 2019/2082, (UE) 2019/2083, (UE) 2019/2084 (UE) 2019/2085, (UE) 2019/2086, (UE) 2019/2087 yn awdurdodi gosod amryw gynhyrchion a addaswyd yn enetig ar y farchnad.

vii. Mewnosod rheoliad 477 i ddirymu Rheoliad (CE) Rhif 1981/2006 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Erthygl 32 o Reoliad (CE) Rhif 1829/2003.

l. Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019

  i. Diwygiadau i reoliadau 12, 16, 22, 26, 27, 28 a 29 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 2065/2003 ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd neu ar fwyd.

  ii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 39 a 52 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1331/2008 sy'n gosod gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd.

  iii. Mân ddiwygiadau i reoliadau 58, 61 a 72 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1332/2008 ar ensymau bwyd.

  iv. Mân ddiwygiadau i reoliadau 82 a 105 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd.

  v. Mân ddiwygiadau i reoliadau 118, 123 a 132 sy'n cynnwys diwygiadau presennol i Reoliad (CE) Rhif 1334/2008 ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol sydd â phriodweddau cyflasynnau i'w defnyddio mewn bwyd neu ar fwyd.

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio cyfraith ddomestig benodol sy'n deillio o'r UE sy'n berthnasol i Loegr yn unig.

**Deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

m. Mân ddiwygiadau i Reoliad (UE) 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o Japan neu a anfonir oddi yno yn dilyn y ddamwain yn orsaf bŵer niwclear Fukushima ac sy'n diddymu Rheoliad Gweithredu (UE) Rhif 322/2014.

n. Mân ddiwygiadau i Reoliad (UE) Rhif 2020/1158 ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o drydydd gwledydd yn dilyn y ddamwain yn orsaf bŵer niwclear Chernobyl 6/6.

**Yr isddeddfwriaeth sy'n cael ei dirymu**

- Rheoliadau'r Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd, Bwyd Anifeiliaid ac Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019.
- Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Chernobyl a Fukushima) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019.

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn dirymu cyfraith ddomestig benodol sy'n deillio o'r UE sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon yn unig.

**Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n cael ei dirymu**

- Rheoliad (EU) Rhif 415/2013 sy'n gosod cyfrifoldebau a thasgau ychwanegol ar gyfer labordai ymchwil yr UE ar gyfer y gynddaredd *(rabies)*, twbercwlosis buchol ac iechyd gwenyn.

**Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau technegol i is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i sicrhau gweithrediad y ddeddfwriaeth hon ar ddiwedd y cyfnod pontio. Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Diben y diwygiadau**

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") yn trosi ac yn cadw cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig ("cyfraith yr UE a ddargedwir") ar ddiwedd y cyfnod pontio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ac yn darparu ar gyfer dirymu is-ddeddfwriaethsydd wedi darfod a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir mewn perthynas â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae diwygiadau Rheoliadau 2020 yn sicrhau y gall deddfwriaeth weithredu'n effeithiol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio i adlewyrchu'r Cytundeb Ymadael, Protocol Gogledd Iwerddon ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau mynediad heb gyfyngiadau i'r farchnad.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/5qIVuf1h/SI-2020/

**Pam rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ran Cymru am resymau effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb a chydlyniant y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Pwrpas y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.